Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Cyfarwyddwr Datblygu |
| **Maes Cyfrifoldeb:** | Arwain gweithgarwch codi arian, marchnata, cyfathrebu, polisi a phartneriaethau CYDA |
| **Yn gyfrifol i:** | Cyd Brif Swyddog Gweithredol |
| **Yn gyfrifol am:** | Staff a gyflogir yn y timau codi arian, marchnata a chyfathrebu, a thimau y Labordy Arloesi |
| **Math o gontract:** | Parhaol |
| **Gradd Cyfrifoldeb:** | 9 (£54,000 - £67,200) |
| **Cyflog a buddion fel cyflogai:** | £54,000 y flwyddyn<br>Mae CYDA yn cynnig lwfans gwyliau blynyddol hael o 25 diwrnod y flwyddyn, a gwyliau banc (7-8 diwrnod fel arfer), a lwfans ychwanegol adeg y Nadolig (3 diwrnod fel arfer), ac 1 diwrnod ychwanegol am bob blwyddyn o waith (hyd at 5 diwrnod).<br>Mae CYDA yn cynnig pecyn deniadol o fuddion i gyflogeion hefyd, sy'n cynnwys:<br>• cinio wedi'i goginio am ddim a diodydd poeth am ddim o'r caffi pryd bynnag y byddwch yn gweithio yng nghanolfan eco CYDA<br>• gostyngiad o 40% ar nwyddau manwerthu a brynir gan CYDA<br>• Cyfleoedd i hyfforddiant DPP, cymwysterau ac aelodaeth broffesiynol gael eu hariannu gan CYDA<br>• Y cyfle i ddilyn 1 gwrs byr CYDA y flwyddyn yn rhad ac am ddim<br>• y cyfle i brynu diwrnodau gwyliau ychwanegol<br>• cynllun 'Beicio i'r Gwaith'<br>• cyfraniad pensiwn o 5%<br>• hawl mamolaeth a thadolaeth hael a budd-dal Marw yn y Swydd<br>• 2 awr y mis ar gyfer iechyd a lles cyffredinol a 2 awr y mis ar gyfer hyfforddiant Cymraeg. |
| **Lleoliad:** | Hyblyg: gweithio gartref gydag ymweliadau rheolaidd â chanolfan eco CYDA ger Machynlleth |
| **Oriau:** | Amser llawn: 37.5 awr yr wythnos. |

| | |
|---|---|
| **Diwrnodau Gwaith:** | Dydd Llun i ddydd Gwener fel arfer. Bydd gofyn gweithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd. |
| **Dyddiad DS:** | 12 Mai 2025 |

## AM GANOLFAN Y DECHNOLEG AMGEN

Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen (CyDA) a leolir ger Machynlleth yng Nghanolbarth Cymru, yn elusen amgylcheddol ryngwladol enwog, yn ganolfan eco sy'n arwain y byd, ac yn un o'r prif ddarparwyr addysg amgylcheddol ôl-raddedig yn y DU.

Mae CyDA yn darparu ysbrydoliaeth, addysg a hyfforddiant ar atebion i'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth.

Mae'r prif weithgareddau'n cynnwys canolfan ymwelwyr lle gall grwpiau weld yr atebion hyn ar waith, cyrsiau preswyl byr, hyfforddiant galwedigaethol a graddau ôl-raddedig mewn ystod eang o bynciau'n ymwneud a chynaladwyedd. Cynigir cyrsiau a digwyddiadau ar-lein ochr yn ochr â dysgu wyneb-yn-wyneb.

Mae gan CYDA gynlluniau uchelgeisiol a thrawsnewidiol i gynyddu'r hyn yr ydym yn ei wneud er mwyn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Mae'n gyfnod cyffrous i ymuno â'r sefydliad i gyflawni rôl arwain uwch. Mae gennym gynllun sy'n werth £25 miliwn i ailddatblygu ein cartref, Chwarel Llwyngwern, a elwir Cynefin. Rydym wedi sicrhau £13.5 miliwn gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru trwy gyfrwng Bargen Twf Canolbarth Cymru a chyllid cyfatebol preifat ar gyfer y cam cyntaf. Bydd y Cyfarwyddwr Datblygu yn arwain yr ymgyrch i godi arian cyfalaf a byddant yn cyflawni rôl allweddol yn Nhîm Rheoli Uwch yr elusen, gan arwain a rheoli'r timau codi arian, marchnata a chyfathrebu, a thimau'r Labordy Arloesi.

Bydd deiliad y swydd yn cynnig profiad sylweddol ar lefel uwch ym maes codi arian, ynghyd â phrofiad cadarn o arweinyddiaeth gydweithredol ac effeithiol. Yn ogystal, byddai profiad o arweinyddiaeth strategol ym maes polisi a chyfathrebu a marchnata o fantais.

## TROSOLWG O'R RÔL

1. Mae'r Cyfarwyddwr Datblygu yn gyfrifol am ddatblygu ac arwain strategaethau er mwyn tyfu adnoddau ariannol y sefydliad, nifer ei gefnogwyr ac adnabyddiaeth o'r brand. Bydd y Cyfarwyddwr Datblygu yn arwain ac yn rheoli'r tîm codi arian a byddant yn meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol y timau Marchnata a Chyfathrebu a thimau'r Labordy Arloesi ar y cyd â'r Cyd Benaethiaid Marchnata a Chyfathrebu a Rheolwr y Labordy Arloesi.

2. Mae'r Cyfarwyddwr Datblygu yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu strategaeth, tactegau a chynlluniau codi arian, er mwyn sicrhau'r cyllid refeniw sy'n werth miliynau sy'n ofynnol er mwyn i CYDA gyflawni ei huchelgais strategol, yn ogystal â chynyddu ei chronfeydd wrth gefn.

3. Mae'r Cyfarwyddwr Datblygu yn gyfrifol am ddatblygu a darparu'r ymgyrch codi arian cyfalaf er mwyn sicrhau cyllid Bargen Twf Canolbarth Cymru a chodi'r arian cyfatebol preifat a fydd yn ein galluogi i gyflawni mewn perthynas â Chynefin.

4. Mae'r rôl yn ymwneud â datblygu a darparu strategaethau er mwyn cynyddu'r incwm craidd a'r incwm prosiect gan roddwyr unigol, ymddiriedolaethau elusennol, ffynonellau statudol a chwmnïau.

5. Mae’r swydd yn cynnwys datblygu ceisiadau a chynigion codi arian i gefnogi’r uchod.

6. Bydd y Cyfarwyddwr Datblygu yn meithrin ac yn cynnal perthnasoedd cadarn a llawn ymddiriedaeth ar lefel uwch gyda rhanddeiliaid allweddol o’r llywodraeth, cyllidwyr, unigolion y mae eu gwerth net yn uchel, sefydliadau corfforaethol a sefydliadau partner

7. Bydd deiliad y swydd yn arwain y gwaith o ddatblygu dull gweithredu CYDA mewn perthynas â mesur effaith, gan sicrhau bod systemau effeithiol mewn grym i fonitro a gwerthuso.

8. Bydd y swydd yn gyfrifol am gynnal trosolwg o’r gweithgarwch marchnata a chyfathrebu, gan gynnwys sicrhau bod strategaethau marchnata a chyfathrebu effeithiol yn cael eu datblygu, eu gweithredu, eu monitro a’u gwerthuso.

9. Fel aelod allweddol o Dîm Rheoli Uwch CYDA, byddwch yn cyflawni rôl arwyddocaol yn arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol y sefydliad ac yn arbennig, byddwch yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i’r gwaith o fireinio a chyflawni ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a’n gwerthoedd.

10. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am osod a rheoli’r gyllideb.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

*CODI ARIAN A SICRHAU INCWM*

- Datblygu a chyfleu’n glir yr achos dros sicrhau cefnogaeth ar gyfer CYDA sy’n ei rhoi mewn sefyllfa i sicrhau llwyddiant ym maes codi arian. Pennu’r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno ei hachos fel un grymus ac unigryw.

- Datblygu, gweithredu a gwerthuso rhaglen codi arian gynhwysfawr sy’n bodloni anghenion y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys gosod y nodau a’r amcanion cyffredinol ar gyfer gweithgarwch codi arian, law yn llaw â’r Cyd Brif Swyddogion Gweithredol, ac arwain y gwaith o weithredu strategaethau er mwyn cyflawni’r nodau hyn.

- Nodi, blaenoriaethu, meithrin, ceisio a stiwardio portffolio rhoddion mawr sy’n cynnwys unigolion a sefydliadau, gyda phwyslais penodol ar ymddiriedolaethau a sefydliadau.

- Cydweithio’n agos gyda’r Cyd Brif Swyddog Gweithredol, gan fireinio ac arwain strategaeth y sefydliad ar gyfer sicrhau mwy o gefnogaeth gan ffynonellau statudol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

- Bydd y swydd yn gyfrifol am oruchwylio gweithgarwch codi arian, gan gynnwys sicrhau bod strategaethau codi arian effeithiol yn cael eu datblygu a'u gweithredu er mwyn cynyddu gweithgarwch rhoi, recriwtio a chadw aelodau a chefnogwyr gan gynnwys cymynroddion, yn ogystal ag ar gyfer ymddiriedolaethau a chorfforaethau.

- Cydweithio’n agos gyda’r Cyd Brif Swyddog Gweithredol, Pennaeth y Ganolfan Eco a’r Cyfarwyddwr Prosiect i roi diweddariad am y cynnydd o ran cyllid a gofynion cyllidwyr.

- Arwain datblygiad ceisiadau cyllid a thendrau, gan weithio gyda’r Cyd Brif Swyddog Gweithredol, Pennaeth y Ganolfan Eco, Pennaeth yr Ysgol, y tîm codi arian, ymddiriedolwyr a staff eraill ar draws y sefydliad.

- Cynnwys y gwaith o sicrhau cronfeydd craidd a chostau gorbenion ym mhob cais a thendr.

- Gweithio gyda'r Cyd Brif Swyddog Gweithredol a'r Cyfrifydd Rheoli i sicrhau bod systemau cadarn yn eu lle ar gyfer rheolaeth ariannol prosiectau ac er mwyn gwireddu cyfraniadau craidd a gorbenion.

- Cydweithio gyda chydweithwyr i greu systemau cadarn ar gyfer ymchwil datblygu, stiwardiaeth a rheoli cyswllt.

- Darparu adroddiadau rheolaidd am gynnydd a chanlyniadau gyda datblygiadau yn y portffolio.

- Trwy gydweithio gyda'r Cyd Brif Swyddog Gweithredol a rheolwyr uwch eraill, ffurfio a chynnal cysylltiadau gyda'r sectorau busnes a gwirfoddol a'r llywodraeth, gyda'r nod o ddenu cymorth ariannol.

- Trwy gydweithio gyda'r Cyd Brif Swyddog Gweithredol, goruchwylio gwaith eiriolaeth a rhwydweithio allanol CYDA, ar y cyd â staff ar draws y sefydliad.

- Arwain y gwaith o ymwreiddio mesur effaith gweithgareddau'r elusen ar draws y sefydliad.

*CYFATHREBU*

- Gan weithio gyda'r Cyd Brif Swyddog Gweithredol a'r Cyd Benaethiaid Marchnata a Chyfathrebu, cynnig arweinyddiaeth ar gyfer gwaith cyfathrebu a marchnata y sefydliad.

- Gan weithio gyda'r tîm Marchnata a Chyfathrebu, creu a goruchwylio darpariaeth strategaeth farchnata a chyfathrebu a fydd yn gwella ac yn datblygu enw da rhagorol CYDA, ac yn galluogi gwaith effeithiol i farchnata gwasanaethau CYDA a chyfleu ei phrif negeseuon.

- Cynghori a chynorthwyo'r tîm Marchnata a Chyfathrebu mewn perthynas â datblygu'r brand, ymgyrchoedd, defnyddio cefnogwyr, cysylltiadau â'r cyfryngau a gwaith CC amddiffynnol.

Gan weithio gyda'r Cyd Benaethiaid Marchnata a Chyfathrebu a'r tîm, datblygu a diweddaru cofnod o wybodaeth allweddol a negeseuon clir a chyson am waith, nodau a chyflawniadau CYDA. Goruchwylio gweithrediad negeseuon allweddol yng ngweithgarwch cyfathrebu CYDA.

*ARWEINYDDIAETH STRATEGOL A CHYMHELLOL*

- Cynnig arweinyddiaeth ysbrydoledig, cydweithredol ac effeithiol dros ystod gweithgareddau datblygu a chodi arian CYDA, gan fanteisio ar ymrwymiad a gwybodaeth y staff.

*ARALL*

- Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y mae'r Cyd Brif Swyddog Gweithredol yn gofyn i chi eu cyflawni.

**YR UNIGOLYN:**

Rhaid i ymgeiswyr am y rôl gynnig profiad sylweddol ac arbenigedd a chysylltiadau eang ym maes codi arian, gan gynnwys rheoli a chynorthwyo tîm codi arian.

Bydd gennych chi brofiad o sicrhau cronfeydd sylweddol gan ffynonellau ymddiriedolaethol, statudol a chorfforaethol, a chan roddwyr unigol, ac yn ddelfrydol, bydd hyn yn cynnwys llwyddiant blaenorol wrth arwain ymgyrch cyfalaf sy'n werth miliynau o bunnoedd ac ysgogi incwm craidd uwch.

Bydd angen eich bod yn meddu ar brofiad a sgiliau cadarn ym maes rhwydweithio a meithrin perthnasoedd gydag unigolion a sefydliadau. Byddai profiad o arwain gwaith marchnata a chyfathrebu o fantais.

Dylai ymgeiswyr fod yn meddu ar ystod eang o sgiliau cyfathrebu a datblygu busnes hefyd, gan gynnwys dawn entrepreneuraidd, sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol a gallu trefnu cadarn.

Mae empathi a brwdfrydedd ynghylch diben, gwerthoedd a heriau CYDA yn hanfodol, ynghyd ag arddull arweinyddiaeth penderfynol a chydweithredol a'r urddas a'r presenoldeb i ennyn hyder ar amrywiaeth o lefelau.

| **MANYLEB PERSON** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | | **Hanfodol** | **Dymunol** | **Sut y caiff ei werthuso** |
| *Addysg a chymwysterau* | | | | |
| a | Addysg gyffredinol dda | * | | Ffurflen gais a thystiolaeth o gymhwyster |
| b | Wedi cael addysg i lefel gradd | | * | |
| c | Cymwysterau a hyfforddiant proffesiynol perthnasol | | * | |
| *Gwybodaeth a phrofiad* | | | | |
| d | Profiad amlwg o ddatblygu a darparu strategaethau codi arian ar gyfer ymgyrchoedd cyfalaf mawr ac ysgogi incwm craidd | * | | Ffurflen gais, cyfweliad a geirda |
| e | Profiad o reoli ffrydiau incwm a chodi arian amrywiol | * | | |
| f | Profiad o ddatblygu a gweithredu strategaethau rhoi unigol | * | | |
| g | Profiad o weithgarwch codi arian sylweddol gan ffynonellau ymddiriedolaethol, statudol a chorfforaethol | * | | |
| h | Ymwybyddiaeth o gyfleoedd a heriau cyllid statudol | * | | |
| i | Profiad amlwg o feithrin perthnasoedd cadarn gyda rhoddwyr mawr | * | | |
| j | Profiad o godi arian ar ffurf cymynroddion | | * | |
| k | Profiad o ddatblygu rhwydweithiau a phartneriaethau er mwyn cefnogi nodau codi arian | * | | |
| l | Profiad amlwg o ddarparu arweinyddiaeth egnïol a strategol effeithiol | * | | |
| m | Profiad o gyflawni rôl rheoli uwch yn y sector codi arian, gan gynnwys cyflawni rôl rheolwr llinell ar gyfer unigolion a thimau staff | * | | |
| n | Profiad o osod a chyflawni targedau perfformio | * | | |
| o | Profiad o waith cynllunio a rheoli adnoddau effeithiol, gan gynnwys rheoli cyllidebau | * | | |
| p | Profiad o ddatblygu a rheoli prosiectau, gan gynnwys prosiectau a ariannir yn allanol | * | | |
| q | Profiad o reoli newid a dadansoddi risg ar lefel uwch | * | | |
| r | Profiad o ymwreiddio gweithgarwch mesur effaith yng ngweithgareddau sefydliad | * | | |
| s | Profiad o arwain timau marchnata a chyfathrebu | * | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Dawn a sgiliau* | | | | |
| t | Meddyliwr strategol hirdymor sydd â gallu gweithredol cadarn wrth arwain a rheoli timau i gyflawni nodau allweddol | * | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| u | Arweinydd ysbrydoledig sydd ag arddull gydweithredol ac sy'n gallu cymell staff i berfformio hyd eithaf eu gallu wrth gyflawni gweledigaeth, nodau ac amcanion y sefydliad | * | | |
| v | Yn meddu ar y cymhelliad a'r uchelgais i lwyddo yn erbyn targedau heriol | * | | |
| w | Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol datblygedig | * | | |
| x | Sgiliau llafar ac ysgrifenedig rhagorol, gan gynnwys y gallu i ysgrifennu adroddiadau clir a chryno, creu a dadansoddi data, cadeirio cyfarfodydd, a rhoi cyflwyniadau i grwpiau | * | | |
| | *Dawn a sgiliau, parhad* | | | |
| y | Sgiliau rheoli ariannol a masnachol cadarn | * | | |
| z | Rhwydweithiwr da ac yn gallu meithrin perthnasoedd cadarn ac estyn allan ar draws grŵp cymhleth o randdeiliaid | * | | |
| aa | Yn gallu rheoli a blaenoriaethu meysydd gwaith lluosog | * | | |
| bb | Yn gallu defnyddio'r iaith Gymraeg | | * | |
| *Rhinweddau personol* | | | | |
| cc | Brwdfrydedd a diddordeb amlwg ym maes yr amgylchedd a chynaliadwyedd | * | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| dd | Yn gallu gweithio mewn ffordd effeithiol fel unigolyn, fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth ag eraill | * | | |
| ee | Agos-atoch, agored, gwrthrychol, gonest a sensitif i anghenion eraill | * | | |
| ff | Yn teimlo'n angerddol ynghylch ethos a gwerthoedd craidd CYDA ac wedi ymrwymo iddynt | * | | |
| *Amgylchiadau* | | | | |
| gg | Parodrwydd i weithio mewn ffordd mor hyblyg ag sy'n ofynnol | * | | Yn y cyfweliad |
| hh | Yn barod i deithio i fodloni galwadau sy'n ymwneud â'r swydd | * | | |

Mae er eich budd chi eich bod yn nodi mewn ffordd amlwg yn eich cais sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir a chyfrifoldebau'r swydd. Fe'ch anogir i gynnig enghreifftiau perthnasol ac amlwg.